**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1464
Ein cyf/Our ref JMHSC/10082/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

08 Hydref 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Medi ynghylch Deiseb P-06-1464 i ganiatáu i deuluoedd Cymru sydd wedi colli babi cyn 24 wythnos gael tystysgrif i gydnabod hynny.

Rwy'n cydnabod bod colli babi yn ystod unrhyw gyfnod o'r beichiogrwydd yn brofiad sy'n peri trallod mawr, a bod y golled yn effeithio ar y teulu cyfan. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pob teulu yn cael cefnogaeth briodol a thosturiol, ac rydym yn deall pa mor bwysig yw hi i'r rhieni bod colli babi yn ystod beichiogrwydd yn cael ei gydnabod yn ffurfiol.

Rydym am i bawb yng Nghymru sydd wedi cael profedigaeth wybod bod cymorth ar gael iddynt, ac rydym yn gweithio ar nifer o fentrau i wella cymorth i blant, pobl ifanc, ac oedolion yng Nghymru.

Mae ein fframwaith profedigaeth cenedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, yn nodi sut y gallwn ymateb i'r rheini sy'n wynebu, neu sydd wedi dioddef, profedigaeth. Mae'r fframwaith yn cynnwys egwyddorion craidd, safonau gofynnol ar gyfer gofal profedigaeth, ac amrywiaeth o gamau gweithredu i gefnogi cynllunio rhanbarthol a lleol.

Lansiodd Llywodraeth y DU gynllun gwirfoddol ar 22 Chwefror i alluogi rhieni, y bu farw eu babi cyn wythnos 24 o'r beichiogrwydd, i wneud cais am dystysgrif am ddim i ddarparu cydnabyddiaeth o'u colled. Ar hyn o bryd, mae'r dystysgrif hon ar gael i unrhyw riant sydd wedi dioddef y math hwn o golled ers 1 Medi 2018 ac sy'n byw yn Lloegr. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r swyddogion perthnasol yn Llywodraeth y DU i edrych ar sut y gellid ymestyn y cynllun hwn i gynnwys Cymru.

Ar hyn o bryd, mae pob teulu y daw eu beichiogrwydd i ben mewn uned famolaeth yng Nghymru yn cael eu cefnogi gan fydwragedd profedigaeth a'r elusen Sands, a byddant yn cael cynnig blychau atgofion sy'n cynnwys 'tystysgrif geni' er cof.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau i'r gofal a'r cymorth profedigaeth sydd ar gael ledled Cymru, gan gynnwys ar gyfer colled yn gynnar yn ystod y beichiogrwydd. Rydym wedi rhoi cyllid i Weithrediaeth y GIG i weithio gyda sefydliadau, gan gynnwys Sands ac arbenigwyr yn y maes hwn, i weithredu'r llwybrau gofal profedigaeth cenedlaethol ar draws Cymru, yn benodol ar gyfer camesgoriad, marw-enedigaeth, a cholli babi.

Yn gynharach eleni, fe wnaethom gomisiynu Sands i gynnal cyfres o 'ddigwyddiadau gwrando' ledled Cymru gyda theuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth a staff sydd wedi eu cefnogi a rhoi gofal iddynt. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn helpu i ddatblygu llwybr gofal profedigaeth cenedlaethol sy'n benodol i Gymru. Rydym yn disgwyl y bydd cam dau – datblygu a chyflwyno'r llwybrau gofal ar gyfer beichiogrwydd a cholli babi – yn dechrau yn ystod y misoedd nesaf. Yn ddiweddar, mae Sands wedi recriwtio swyddog prosiect ar gyfer Cymru, a fydd yn gyfrifol am sefydlu rhwydwaith i rannu arferion a chynnal gweithdai i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn ogystal â chreu grŵp cynghori rhieni.

Yr eiddoch yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care